Senedd Cymru
**Ymweld a Dysgu**

# Gweithgaredd 4: Pleidleisio

Bydd gan bawb dros 16 oed yng Nghymru un bleidlais i ddewis plaid wleidyddol neu ymgeisydd annibynnol yn etholiadau'r Senedd o 2026 ymlaen. Bydd pleidiau'n rhoi gwybod i chi am eu syniadau ar gyfer y dyfodol o ran helpu i lywio Cymru, ond chi fydd yn dewis eich ffefryn. Pleidleisio yw'r enw rydyn ni'n ei ddefnyddio ar gyfer hyn, ac mae'n digwydd bob pedair blynedd yng Nghymru.

**Pa oedran sy'n rhaid i chi fod yn y DU i...**

**...roi gwaed?** ......

**...prynu anifail anwes?** ......

**...cofrestru i bleidleisio?** ......

**...cael eich dal yn gyfrifol am droseddu?** ......

**...dod yn lleian neu'n fynach?** ......

**...hedfan awyrennau masnachol?** ......

**...mabwysiadu plentyn?** ......

**...bod yn berchen ar neidr wenwynig?** ......

**...bod yn berchen ar dir, prynu eiddo a gwneud cais am forgais?** ......

**...pleidleisio yn yr Etholiad Senedd?** ......

**...pleidleisio yn yr Etholiad Cyffredinol?** ......



**Pe bai gennym etholiad yfory, a fyddech chi'n pleidleisio?**

Nodwch eich rhesymau yma:

**Pe bai eich Aelodau'n trafod y pynciau canlynol, sut byddech chi'n pleidleisio?**

Nodwch eich rhesymau pam.

- Dylai gwyliau ysgol gael eu newid i ddod â'r gwyliau haf hir i ben.
- Dylai'r diwrnod ysgol gael ei ymestyn i 5pm, i gynnwys mwy o chwaraeon, ond gwahardd unrhyw waith cartref y tu allan i'r ysgol.
- Dylai meddygon teulu ragnodi tocynnau am ddim ar gyfer gemau pêl-droed i helpu gydag iselder.
- Dylai hanes Cymru fod yn bwnc gorfodol ym mhob ysgol yng Nghymru.
- Dylai pecynnu plastig mewn archfarchnadoedd gael ei wahardd.
- A ddylai myfyrwyr gael eu gorfodi i wisgo gwisg ysgol?
- A ddylai ysgolion wahardd bwyd sothach?
- A ddylem ni adael i blant chwarae chwaraeon cyswllt?